

Cynulliad ar yr Hinsawdd Ysgolion Dyffryn Nantlle



CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD

GWYRDDNI

COMMUNITY • CLIMATE • ACTION



CEFNDIR

Mae GwyrddNi yn fudiad gweithredu ar newid hinsawdd sydd wedi ei leoli yn y gymuned ac yn cael ei arwain gan y gymuned. Mae'n dod â phobl ynghyd mewn pum ardal yng Ngwynedd i drafod, dysgu a gweithredu yn lleol ar newid hinsawdd.

Er mwyn canfod mwy am GwyrddNi ewch i'n gwefan:

<https://www.gwyrddni.cymru/>

Fel rhan o'r gwaith hwn mae GwyrddNi wedi bod yn cydweithio ag ysgolion ardaloedd GwyrddNi i gynnal rhaglen addysg i gyd fynd ag ethos a thema'r gwaith yn y gymuned.

Yn ardal Dyffryn Nantlle rydym wedi bod yn gweithio gydag Ysgol Dyffryn Nantlle, Ysgol Talysarn, Ysgol Brynaerau, ac Ysgol Rhosgadfan.

Mae'r rhaglen addysg wedi ei ddylunio gyda chwe chymal:

- Gweithdy yn yr ysgol am Newid Hinsawdd
- Cylchdaith o amgylch y gymuned i brofi rhai o'r datrysiadau hinsawdd sydd ar y gweill yn lleol
- Cynulliad ar yr Hinsawdd
- Cyflwyno canfyddiadau'r Cynulliad Ysgolion i'r Cynulliad Cymunedol
- Gweithredu ar yr hinsawdd
- Dathliad o'r hyn sydd wedi ei gyflawni

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r holl ysgolion sy'n rhan o'r cynllun am eu cydweithrediad brwd.

GWEITHDY

Yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf 2022 buom yn cynnal gweithdy am Newid Hinsawdd gydag ysgolion Dyffryn Nantlle, Talysarn, Brynaerau a Rhosgadfan.

Nod y gweithdy oedd sicrhau ein bod ni'n:

- Sylwi ar wahanol elfennau o'n cymunedau a sut maent yn gysylltiedig
- Deall beth oedd yr effaith tŷ gwydr
- Deall y cylch carbon
- Deall sut mae llosgi tanwydd ffosil a pheidio edrych ar ôl y byd naturiol yn cynyddu'r effaith tŷ gwydr a thrwy hynny yn achosi cynhesu byd eang.

- Deall mae cynhesu byd eang sy'n achosi'r newid hinsawdd rydym yn ei brofi ar hyn o bryd.
- Ystyried sut mae newid hinsawdd yn effeithio pobl o amgylch y byd gan gynnwys ni yma yng Nghymru.
- Deall byddai canfod ffyrdd o fyw sy'n golygu nad ydym yn llosgi tanwydd ffosil ac yn golygu ein bod yn edrych ar ôl byd naturiol yn gwneud cyfraniad mawr at arafu a lleihau effeithiau newid hinsawdd ar ein cymunedau.
- Teimlo'n gyfforddus yn trafod teimladau ynghylch newid hinsawdd a sylwi fod posib trosi teimladau negatïf yn rai positif wrth weithredu.

Dyma rhai lluniau o'r gweithdai ar draws ardaloedd GwyrddNi.



CYLCHDAITH

Yn ystod tymor yr haf 2022 yn ogystal, bu cyfle i blant a phobl ifanc GwyrddNi profi rhai o'r datrysiadau hinsawdd sydd eisoes ar y gweill yn ein cymuned.

Nod y cylchdeithiau oedd sylwi:

- Ei fod yn bosib ymateb i'r argyfwng hinsawdd.
- Ei fod yn bosib ymateb i'r argyfwng hinsawdd yma yn Nyffryn Ogwen a chael blas ar yr ymatebion sydd wedi eu datblygu hyd yma.
- Nad oes un datrysiad i'r argyfwng hinsawdd ond yn hytrach amryw helaeth o ddatrysiadau.
- Bod ymateb i'r argyfwng hinsawdd yn gymunedol hefyd yn cyfrannu nifer o fuddion eraill i ni fel unigolion ac i'n cymunedau.

Yn Nyffryn Nantlle buom yn ymweld neu gymryd rhan mewn gweithdy gyda:

- Yr Ardd Wylt
- Y Gofod Gwneud a Thrwsio
- Y Rhandiroedd Cymunedol
- Y Gofod Ddigidol
- Trafnidaeth Cymunedol Dyffryn Nantlle
- Llyfrgell y Petha

Diolch yn fawr iawn i holl staff a gwirfoddolwyr Yr Orsaf a Llyfrgell y Petha am sicrhau llwyddiant y Cylchdeithiau.





CYNULLIAD

Cynhaliwyd Cynulliad Ysgolion Dyffryn Nantlle yn Ysgol Dyffryn Nantlle ar y 10ed o Dachwedd 2022.

Mynychwyd gan 25 o blant a phobl ifanc o Ysgol Dyffryn Nantlle, ac Ysgol Rhosgadfan.

Nod y cynulliad oedd:

- Ystyried a nodi beth sy'n bwysig inni yn ein cymunedau.
- Gweledigaethu dyfodol lle'r rydym wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i ymateb i her yr hinsawdd.
- Datblygu syniadau bydd yn ein helpu cyrraedd y dyfodol yna.

Gwnaethom hyn drwy:

- Fel unigolion, meddwl am a thynnu llun y llefydd yn ein cymuned sydd fwyaf pwysig i ni a'u gosod ar fap o'r dyffryn.
- Fel unigolion, dychmygu dyfodol lle'r rydym wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i ymateb i her yr hinsawdd. Rhannu hyn efo'n grŵp er mwyn canfod elfennau o'r weledigaeth oedd gennym mewn cyffredin â gweddill y grŵp. Rhannu'r rhain a'u cofnodi gyda gweddill y Cynulliad fel bod modd creu darlun ar y cyd o'r dyfodol rydym yn ei ddymuno.
- Fel grŵp gweithio ar ddatblygu syniadau fydd yn ein helpu i sicrhau fod elfen benodol o'r weledigaeth yn dod yn wir a'u cofnodi ar pro forma arbennig.



Hoffwn ddiolch i Ysgol Dyffryn Nantlle am gynnal y Cynulliad.

CANFYDDIADAU'R CYNULLIAD

Dyma ganfyddiadau Cynulliad Ysgolion Dyffryn Nantlle.

Y pethau yn ein cymunedau sy'n bwysig i ni:

Rhain ydy'r pethau rydym eisiau eu cadw wrth inni ymateb i her yr hinsawdd yn ein cymunedau. Yn ogystal, gallai'r pethau yma ein helpu i symud i'r math o dyfodol rydym yn ei ddymuno.



Ein parciau gan gynnwys parc Rhosgadfan a parc Cwtin yn Penygroes

Cae Cled Rhosgadfan

Yr allt yn y parc lle da ni'n llithro lawr ar ein pengliniau

Moel Tryfan

Y Mountain Rangers yn Rhosgadfan

Ein caeau peldroed - yn Groeslon, Llanllyfni, Talysarn a Penygroes

Y Co-op yn Penygroes

Ein ysgolion, ein caeau ysgol, ac yn arbennig y lle da ni'n tyfu pwmpenni ar ol ysgol.

Capel Rhosgadfan Neuadd Rhosgadfan Lon Las Eifion

Llyn Dulyn Y Pumhouse yn chwarel Dorothea Y coed mawr lle da ni'n dringo

Y Quarryman's arms sydd ddim yn agored rwan Ein cartrefi a'n ffrindiau

Ein gweledigaeth o'n cymuned yn 2040:

Dyma fydd ein cymuned pan fyddwn wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i ymateb i her yr hinsawdd.



Bydd ein tai yn fodern a digon mawr. Byddwn yn defnyddio deunyddiau sydd ddim yn neud niwed i'r amgylchedd i'w hadeiladu. Byddwn yn defnyddio gwastraff plastig i'w insiwleiddio. Bydd paneli solar ar bob tŷ. Byddwn wedi creu diwydiant adeiladu eco modiwlar yn Nyffryn Nantlle fydd yn creu swyddi i bobl yma. Bydd bob tŷ gyda digon o ardd i dyfu bwyd.

Byddwn yn bwyta bwyd lleol. Byddwn yn tyfu bwyd adra ac fel pentref. Byddwn yn prynu bwyd o'r fferm. Bydd siop leol hefyd i brynu bwyd. Bydd digon o fwyd iach i bawb.

Byddwn yn gwisgo dillad rydym wedi gwneud ein hunain.

Ni fydd gwastraff plastig.

Byddwn yn cynhyrchu ynni i'r dyffryn gan ddefnyddio'r gwynt, dŵr a'r haul.

Byddwn yn teithio llai a phan da ni'n teithio byddwn yn teithio ar feiciau, sgwteri a cheir trydan. Bydd trên trydan hefyd fydd yn teithio drwy'r awyr.

Bydd y dyffryn yn llawn o blanhigion a blodau gwyllt. Bydd llawer o goed a bydd y coed yn llawn o adar.

Yn yr haf fydd y tywydd yn boeth ac yn y gaeaf fydd y tywydd yn oer.

Byddwn yn gallu cael addysg adref os dymunwn gyda chyfrifiaduron i helpu ni deall mwy.

Byddwn yn cael digon o ymarfer corff yn yr awyr agored a gallwn fynd am dro heb iddo gael ei darfu gan niwed yn y byd. Bydd Moel Tryfan a'r parciau'n llawn o blant yn chwarae. Bydd digon o lefydd i bobl dod at ei gilydd ac ar noson tan wyllt fydd un goelcerth fawr yn hytrach na llawer o rai bach.

Ein syniadau gweithredu bydd yn ein helpu cyrraedd y dyfodol uchod:

Tai

Gwelliannau i'r tai yn Nyffryn Nantlle.

Bob tŷ gydag ynni adnewyddadwy a dyfeisio 'blinds' solar i'r ffenestri.

Cynllun lle gall bobl cyfnewid tŷ er mwyn cwrdd â'u hanghenion.

Ynni

Un felin wynt anferth - y gymuned sy bia hi - yn y cae mawr agos at fynydd mawr.

Paneli solar ar do bob un o'r ysgolion a bo tŷ gyda ynni adnewyddadwy.

Bwyd

Fferm gymunedol dan berchnogaeth pawb gyda siop wrth y fferm yn gwerthu'r bwyd.

Mini fferm yn yr ysgol gyda siop i werthu'r cynnyrch. Bydd y fferm yn tyfu coed ffrwythau i bobl cael dringo i nôl ffrwyth. Trefnu cystadleuaeth tyfu ffrwythau a chystadleuaeth dringo coeden i nôl ffrwyth.

Cefnogaeth i bobl gallu tyfu bwyd a blodau yn eu gerddi neu mewn gardd gymunedol.

Cynllun i osod bocsys i dyfu bwyd iach ar ochr lôn fel bod unrhyw un sydd angen bwyd yn gallu ei bigo.

Trafnidiaeth

Adeiladu ar syniad Llyfrgell y Petha - fel bod pobl yn gallu benthyg sgwteri trydan.

Trên trydanol sy'n mynd o amgylch yr ardal am ddim.



CYFLWYNO I'R CYNULLIAD CYMUNEDOL

Cyflwynwyd canfyddiadau'r Cynulliad Ysgolion i Gynulliad Cymunedol Dyffryn Nantlle ar yr 11eg o Ragfyr 2022 gan Ella, Mia, Abby, a Steffan o Ysgol Rhosgadfan.



Roedd y Cynulliad yn falch iawn o glywed barn, dyheadau a syniadau'r plant a phobl ifanc.

"It was great to have the visit from the local primary school kids as well showing their hopes and aspirations for the future. It was really moving really. One thing that I noticed was really good was that they're quite blue sky in their thinking so they're not sort of so bogged down in the practicalities of things as the adults are which is great because you can lose sight of things that you want to aim for because you think oh well it's not practical, you can't do that for this, that and the other reason and why not aim high, aim for the best outcomes." - Martyn, aelod Cynulliad

Defnyddiwyd syniadau'r plant a phobl ifanc fel sail i ddatblygu syniadau'r Cynulliad i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Hinsawdd Dyffryn Nantlle yn ystod y Cynulliad Cymunedol.

CAMAU NESAF

Bydd plant a phobl ifanc, ac ysgolion GwyrddNi yn edrych ymlaen at weld sut fydd syniadau'r plant yn chwarae rhan wrth i'r Cynulliad datblygu cynllun gweithredu hinsawdd ar gyfer y Dyffryn.

Yn ogystal byddwn yn mynd ati i weithredu cymalau olaf y rhaglen addysg sef gweithredu ar yr hinsawdd a dathlu'r hyn sydd wedi ei gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf.

Bydd modd i chi gadw golwg ar y datblygiadau hyn ar [safleoedd Cyfryngau Cymdeithasol](#) GwyrddNi.